

# *Gwraig fel Dorcas*

*5 Astudiaeth Feiblaidd am Wasanaeth Cristnogol*

## **TAFLENNI GWAITH**

---

Sesiwn 1. Stori Dorcas - Actau 9:36-42

Sesiwn 2. 'Gwneud daioni': Beth yw ystyr hyn heddiw?

Sesiwn 3. 'Gwneud daioni':

Beth yw'r Safon? Pwy yw ein hesiampl?

Sesiwn 4. 'Gwneud daioni':

Help ar gyfer yr adegau anodd!

Sesiwn 5. 'Gwneud daioni':

Pa ganlyniadau allwn ni eu disgwyl?

# 1. Stori Dorcas - Actau 9:36-42

## Crynodeb o stori Dorcas Actau 9:36-43

Bu stori Dorcas, pwnc yr astudiaeth hon, yn ysbrydoliaeth i ferched ar hyd y canrifoedd. Mae'n cynnwys sawl gwers werthfawr i'r rhai sydd eisiau dilyn Iesu, ond yma rydym yn gobeithio gweld yn benodol sut y mae Dorcas yn dysgu mwy i ni am ystyr cariad Cristnogol.

Disgybl i Iesu oedd Dorcas yn byw yn Jopa, tref ar lan Y Môr Canoldir, a phrif borthladd Palestina yn y cyfnod hwnnw. Roedd eglwys Gristnogol yn Jopa, ac mae'n bosib bod y credinwyr yn cyfarfod i addoli yn nhŷ Dorcas gan mai dyna'r arferiad ar y pryd (edrychwch ar Actau 12:12 a Rhufeiniaid 16:5).

Yn gryno, roedd Dorcas yn adnabyddus yn Jopa oherwydd ei charedigrwydd tuag at y tlawd a'i gweithredoedd da. Treuliodd ei hamser yn gwneud dillad i'r rhai oedd yn anghenus, ac roedd ganddi gonsŷrn arbennig am weddwon a'u plant. Er tristwch mawr i bawb o'i chwmpas, aeth Dorcas yn sâl ac fe fu farw. Ond cafodd rhywun syniad. Beth am fynd i dref Lyda gerllaw i nôl Pedr - gan y byddai ef yn gwybod beth i'w wneud! Daeth Pedr i Jopa, gan weddio a dweud wrth Dorcas am godi - ac fe wnaeth hynny. Lledodd y newydd am atgyfodiad Dorcas fel tân gwyllt trwy Jopa, ac fe gredodd llawer yn Iesu yn sgil hynny.

## 1. Astudio'r stori Feiblaidd mewn manylder

### Darllenwch adnod 36.

Beth a ddysgwn am Dorcas o'r adnod hon?

.....

### Darllenwch adnod 39.

Beth a wnaeth Dorcas i helpu pobl dlawd Jopa?

.....

Sut fath o bobl yn benodol a gafodd help ganddi?

.....

### Darllenwch adnodau 32- 34 ac adnod 38.

Pam wnaeth y disgyblion yn Jopa anfon neges at Pedr?

.....

**Darllenwch adnodau 40-41.**

Beth a wnaeth Pedr wedi iddo gyrraedd?

.....

**Darllenwch adnod 42.**

Pa effaith a gafodd y digwyddiad hwn yn Jopa?

.....

**2. Beth ydym ni yn ei ddysgu am Dorcas?**

- Roedd Dorcas yn ddisgybl i Iesu
- Roedd Dorcas yn caru'r tlawd a'r anghenus yn Jopa.

**Dorcas y disgybl**

Mae'r gair a ddefnyddir yma ar gyfer 'disgybl' (*mathetes* mewn Groeg) yn golygu 'un sy'n derbyn cyfarwyddyd, dysgwr'.

Roedd Dorcas wedi clywed am newyddion da'r efengyl ac wedi ymuno â'r rhai oedd yn dilyn Iesu.

**Cwestiynau:**

Pwy yw disgyblion Iesu heddiw?

Marc 1:16-20 .....

Actau 2:37-39 .....

Actau 11:25,26 .....

Sut mae'r adnodau hyn yn ein helpu i ddeall sut all unigolyn ddod yn ddisgybl i Iesu?

.....

Ydach chi'n ystyried eich bod yn ddisgybl i Iesu? Pam?

.....

### Dorcas yn dangos cariad tuag at y tlawd

Roedd Dorcas wedi derbyn cariad a charedigrwydd Duw ac roedd y cariad a'r caredigrwydd hwn yn llifo tuag at eraill.

- Roedd cariad Dorcas yn **ymarferol** – adnod 39
- Roedd cariad Dorcas yn golygu **gwaith caled** – adnod 36

### Cwestiynau:

Pa un yw'r gorchymyn pwysicaf, yng ngeiriau'r Iesu? **Mathew 22:36,37**

.....

Pa un oedd yr un pwysicaf wedi hynny? **Adnod 39**

.....

Sut allwn ni garu Duw fel hyn? **1 Ioan 4:19; Rhufeiniaid 5:5**

.....

Sut allwn ni garu ein cymydog fel hyn? **Rhufeiniaid 5:5; 1 Ioan 4:19**

.....

## **Beth sydd angen i mi ei ddysgu o'r stori hon?**

Dros y pedair wythnos nesaf byddwn yn defnyddio stori Dorcas a'r hyn y gallwn ni ei ddysgu ohoni er mwyn edrych ar y pwyntiau canlynol ac ateb y cwestiynau hyn:

### **Sesiwn 2. 'Gwneud daioni': beth yw ystyr hynny heddiw?**

Mae Duw wedi rhoi talentau i ni ar gyfer eu defnyddio er budd eraill.  
Pa dalentau/sgiliau sydd gennych chi? Sut ydych chi yn eu rhoi ar waith?

### **Sesiwn 3. 'Gwneud daioni': Beth yw'r Safon? Pwy yw ein Hesiamp?**

Edrych ar ddysgeidiaeth Iesu ynghylch gwasanaethu eraill a'i esiamp ef ei hun fel gwas.

### **Sesiwn 4. 'Gwneud Daioni': Help ar gyfer yr adegau caled!**

Pa adnoddau sydd ar gael ar gyfer y Cristion i wasanaethu Duw ac eraill?

### **Sesiwn 5. 'Gwneud Daioni': Pa ganlyniadau allwn ni eu disgwyl?**

A all Duw ein defnyddio ni i helpu eraill ddod i gredu yn Iesu fel eu Gwardwr ac Arglwydd?

## 2. 'Gwneud daioni': Beth yw ystyr hyn heddiw?

Yn yr ail astudiaeth hon, byddwn yn ystyried sut y mae Dorcas yn esiampl ar gyfer ein hannog i fyw bywyd o "gwneud daioni". Yn y Testament Newydd, defnyddir ymadroddion gwahanol ar gyfer disgrifio bywyd Cristion: bywyd o wasanaeth; bywyd o hunan-berth; bywyd o ufudd-dod. Disgrifir Dorcas fel gwraig oedd "wastad yn gwneud daioni", a dyma'r ymadrodd y byddwn yn ei ddefnyddio. Byddwn yn ystyried beth sy'n cymhell Cristion i "gwneud daioni" a beth yw ystyr "gwneud daioni" yn ymarferol.

### 1. Crynhoi stori Dorcas: Actau 9:36

Beth ydych chi yn ei gofio am Dorcas?

.....

### 2. Gwneud daioni – Ewyllys Duw ar gyfer ei bobl

**Darllenwch Effesiaid 2:8-10.**

*Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn, rhodd Duw ydyw; nid yw'n dibynnu ar weithredoedd, ac felly ni all neb ymffrostio. Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu i ni o'r dechrau.*

**Beth yw'r gweithredoedd da y mae Duw wedi'u cynllunio i ni eu rhoi ar waith?**

Gall fod yn ddefnyddiol i rannu'r gweithredoedd da i ddau gategori:

a) Doniau Ysbrydol

**Darllenwch 1 Corinthiaid 12:27-31.**

.....

**Darllenwch Rhufeiniaid 12:6-8.**

.....

Rhoddir y doniau hyn am resymau pendant.

**Darllenwch 1 Pedr 4:10-11.**

.....

Darllenwch Effesiaid 4:11,12.

.....

Darllenwch Mathew 5:14-16.

.....

b) Talentau

**Ein Hadnoddau**

**Darllenwch 1 Timotheus 6:17-19.**

Mae Paul yn dweud o leiaf 7 peth wrth Gristnogion cyfoethog yn yr adnodau hyn. Allwch chi eu rhestru?

.....

**I'w Hystyried:**

- Pa ddawn/doniau ysbrydol y mae Duw wedi'u rhoi i chi? Sut ydach chi'n defnyddio'r ddawn honno? Efallai y byddwch angen cymorth gan Gristion mwy aeddfed i weld pa ddawn/doniau y mae Duw wedi'u cyflwyno i chi a sut y gallwch eu defnyddio.

.....

- Pa dalentau naturiol sydd gennych chi?  
Ydach chi yn eu defnyddio i wneud daioni i eraill?

.....

- Beth yw eich agwedd at eich adnoddau ariannol?  
Ydach chi'n defnyddio eich cyfoeth yn hael er lles eraill??

.....

- **Darllenwch Colosiaid 3:17.** *Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, ar air neu ar weithred, gwnewch bopeth yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, gan roi diolch i Dduw, y Tad, drwyddo ef.*

Dylem wneud Y CYFAN yn ei enw  
– fel cynrychiolwyr Iesu a drosto ef.

Dylem wneud Y CYFAN yn ddiolchgar  
– gydag ysbryd llawen, nid yn rwgnachlyd.

Treuliwch beth amser yn ystyried yr adnod hon.

### 3. Gwneud daioni – ein hymateb i gariad Duw

Allwch chi feddwl am adeg y cawsoch chi eich cymell i weithredu fel ymateb i sefyllfa benodol. Beth oedd y cymhelliad i chi weithredu fel hyn?

.....

Beth ddylai gymell y Cristion i wneud daioni yn eich barn chi?

.....

Beth a ddywed Paul yn yr adnodau hyn am yr hyn a ddylai gymell y Cristion?  
Rhufeiniaid 12:1-2

.....

Effesiaid 5:1

.....

Philipiaid 2:1,2

.....

Colosiaid 3:12

.....

Bob dydd dylem gofio beth y mae Duw wedi'i wneud drosom, sut y mae wedi ein caru trwy roi ei Fab i farw dros y byd. Wrth wneud hynny, llenwir ein calonnau â diolchgarwch tuag at ein Tad a gyda'i gariad ef cawn ein hysbrydoli i fyw yn llwyr er ei fwyn ef hefyd.



## I Derfynu

Defnyddiodd Dorcas ei thalentau naturiol i wñio er mwyn gwneud dillad ar gyfer gweddwon tlawd Jopa a'u teuluoedd. Wrth gwrs, roedd ganddi'r modd i brynu defnyddiau ar gyfer hyn, felly defnyddiodd ei hadnoddau ariannol yn y fenter hon hefyd. Efallai iddi gael un o'r doniau ysbrydol y cyfeiriodd Paul atynt yn 1 Corinthiaid 12 - y ddawn o helpu neu wasanaethu o bosib. Cafodd ei gweithredoedd da effaith ar yr holl dref. Pa effaith allai ein gweithredoedd da ni ei gael?

### 3. 'Gwneud daioni': Beth yw'r Safon? Pwy yw ein hesiampl?

Amcanion y sesiwn hon yw:

- Ymchwilio i'r hyn sydd gan y Beibl i'w ddweud am wasanaethu eraill.
- Ystyried y safon a osododd Iesu ar gyfer ei ddilynwyr.
- Ystyried esiampl Iesu fel "Y Brenin Gwasanaethgar".

#### 1. Cofio Dorcas

Darllenwch Actau 9 adnodau 36-42.

Beth mae adnod 36 yn ei ddweud am Dorcas?

.....

Beth a ddysgw'n o adnod 39 ynghylch yr hyn yr oedd Dorcas yn ei wneud i helpu eraill?

.....

#### 2. Beth a ddywed y Beibl am wneud daioni?

Effesiaid 2:10.

Beth y mae Duw wedi'i gynllunio i'w bobl ei wneud?

.....

Mathew 5:16.

Beth ddylai ddiwydd yn sgil ein gweithredoedd da?

.....

1 Timotheus 6:17,18.

Beth ddylai credinwyr cyfoethog ei wneud?

.....

#### Myfyrdod Personol

Meddyliwch dros yr wythnos a aeth heibio. Ydach chi wedi cael cyfle i fod yn hael a rhannu gyda rhywun arall? Ydach chi wedi gweddïo y bydd eich gweithredoedd da yn tynnu eraill at Iesu?

## Caru fy nghymydog fel fi fy hun – Y Safon

Darllenwch Luc 10:25-37.

Y Samariad Trugarog.

- Beth a ddywed adnodau 27 a 28 ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i berson ei wneud i gael bywyd tragwyddol?

.....

- **Darllenwch adnodau 30-37.**  
Pwy a fu'n 'gymydog' i'r unigolyn clwyfedig yn ôl Iesu?

.....

### Cwestiwn

Allwch chi feddwl am rywun sydd angen tosturi yn eich eglwys neu eich cymuned? Cofiwch fod hyn yn golygu rhywbeth ymarferol ac fe allai fod yn gostus.

Os na allwch chi wneud hyn, efallai bod modd ichi dreulio ychydig o amser dros y dyddiau nesaf yn gofyn i Dduw ddangos rhywun y dylech chi neu'r Eglwys ddangos tosturi tuag atynt.

## Caru fy 'nghymydog' fel fi fy hun – Yr Esiampl

Darllenwch Ioan 13:1-17.

Iesu'n golchi traed ei ddisgyblion.

- All rhywun roi cynnig ar gyflwyno adnodau 14 ac 15 yn eu geiriau eu hunain? Pa fath o dasgau yr ydych chi'n gorfod eu gwneud y byddech yn eu cymharu â Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion?

.....

- Pa fath o dasgau 'Cristnogol' a fyddech chi'n eu cymharu â Iesu'n golchi traed ei ddisgyblion?

.....

- A fyddech chi'n fodlon gwneud y tasgau hyn?

.....

- Beth yw dymuniad Iesu ar gyfer ei ddilynwyr ei hun yn ôl yr adnodau hyn?

.....

- Pa obaith sy'n cael ei gynnig yn 2 Corinthiaid 3:18 i'r rhai sy'n gwybod yn iawn nad ydynt yn medru dilyn esiampl Iesu fel y dylent?

.....

#### Yn ystod yr wythnos, treuliwch amser:

- Yn diolch i Dduw am ei gariad a'i faddeuant. Darllenwch a myfyriwch ar **Rhufeiniad 5:8**. Carodd Iesu ni'n gyntaf pan oeddem ni yn bechaduriaid - does dim rhaid inni ennill ei ffafr ef trwy ein gweithredoedd da.
- Yn ystyried: Ydw i wedi bod yn ceisio ennill ffafr Duw? Neu a ydw i'n 'gwneud daioni' fel ymateb i'w gariad ef?
- Yn cofio'r credinwyr hynny sy'n wynebu erledigaeth a hyd yn oed marwolaeth gan eu bod yn ddilynwyr i Iesu.

#### Rhagor o nodiadau ar y Gyfraith a'r tlawd ac anghenus yn y gymdeithas Iddewig

Roedd **diogelwch economaidd** ar waith ar gyfer y tlodion: roedd ganddynt hawl i loffa grawn o gorneli caeau a doedd dim modd i gredydwyr gymryd eu blancedi na'u hoffer (Lefiticus 19:9-10; Deuteronomium 24:17). Roedd rhaid talu dynion ar ddiwedd eu diwrnod o lafur (Lefiticus 19:13), ac roedd disgwyl i aelodau'r teulu helpu'i gilydd i adennill eu tir os oeddent yn syrthio i ddyled ac yn ei golli (Lefiticus 25:23-34).

Roedd y deddfau a gyflwynwyd gan Dduw hefyd yn rhoi **diogelwch cymdeithasol** heb ei debyg o'r blaen i'r tlodion: doedd gan farnwyr ddim hawl i ddangos ffafriaeth tuag at y cyfoethogion (Lefiticus 19:15); roedd gweddwon yn cael priodi eu brodyr-yng-nghyfraith er mwyn sicrhau etifedd i ofalu amdanynt yn eu henaint (Deuteronomium 25:5-10).

Yn olaf, roedd cyfraith Duw yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer cynnwys y tlodion mewn **addoliad cymunedol**: roedd gweision, caethweision, dieithriaid a hyd yn oed anifeiliaid i gymryd rhan yn y Sabath (Deuteronomium 5:1-15); yn achos pobl dlawd nad oeddent yn gallu fforddio aberthau drud, roeddent yn cael aberthu'r hyn yr oedd modd iddynt ei fforddio (Lefiticus 5:7, 11; 14:21). Cesglid un **degwm** gyda gorchymyn penodol i gynnwys estroniaid, plant amddifad, gweddwon a phobl dlawd eraill mewn gwledd a dathliad cymunedol blynyddol. (Deuteronomium 14:22-29).

## 4. 'Gwneud daioni': Help ar gyfer yr adegau anodd!

Yn yr astudiaeth hon, byddwn yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y Cristion wrth iddo/iddi ymdrechu i fyw bywyd sy'n llawn o 'weithredoedd da'. Ystyrir hefyd bwysigrwydd gweddi ym mywyd y Cristion.

Mae ein Tad nefol yn rhoi popeth y mae ei blant ei angen er mwyn byw bywyd sydd yn ei blesio ef, ac sy'n llawn o 'weithredoedd da'- y gweithredoedd da hynny y mae ef wedi bwriadu iddynt eu cyflawni. (Effesiaid 2:10)

Y prif adnoddau sy'n grymuso Cristion yw'r Ysbryd Glân, Yr Eglwys, a Gair Duw - Y Beibl.

### 1. Yr Ysbryd Glân

#### Person yr Ysbryd Glân

Mathew 28:19 .....	Rhufeiniaid 8:11 .....
Eseia 63:10 .....	Rhufeiniaid 15:30 .....
Rhufeiniaid 8:27 .....	Ioan 16:8 .....
Ioan 14:26 .....	1 Ioan 2:27 .....

#### Gwaith yr Ysbryd Glân

a) Ei waith yn y Creu - *Genesis 1:2-3*

b) Ei waith yn cyfathrebu gwirioneddau Duw. Ei brif waith yw tystiolaethu dros Grist - *2 Timotheus 3:15-16; 2 Pedr 1:19-21; Ioan 14:26, 15:26, 16:13-14; Ioan 16:13-14*

c) Mae ynghlwm wrth waith Crist - *Luc 1:35; Mathew 3:16*

d) Mae'n gwneud gwaith helaeth gyda bodau dynol.

- Yr enedigaeth newydd - *Ioan 3:1-8; Effesiaid 1:14; 1 Corinthiaid 12:13*
- Creu dealltwriaeth - *1 Corinthiaid 2:4 Ioan, 15:26*
- Creu ffrwyth (sancteiddrwydd) - *Galatiaid 5:22-26; 1 Pedr 1:2*
- Yn llenwi credinwyr - *Effesiaid 5:18*
- Yn rhoi doniau i gredinwyr - *1 Corinthiaid 12:4-7; Effesiaid 4:7-14; 1 Pedr 4:10-11; Rhufeiniaid 12:6-8*
- Yn helpu gyda gweddi - *Effesiaid 2:18; Rhufeiniaid 8:26*
- Yn cymhwyso gwaith Crist ar gyfer credinwyr. Mae'n selio ac yn sancteiddio credinwyr yng Nghrist - *1 Ioan 2:27*

Yr Ysbryd = Grym ar gyfer byw

Rhufeiniaid 8:11.

.....

Galatiaid 2:20.

.....

Philipiad 4:13.

.....

Rhufeiniaid 8:9.

.....

Treuliwch ychydig funudau yn trafod yr adnodau hyn a'r oblygiadau ar gyfer y Cristion sydd am ddilyn esiampl Iesu trwy ddangos tosturi a gwasanaethu eraill.

Derbyn arweiniad yr Ysbryd

Galatiaid 5:16,25.

.....

Rhufeiniaid 8:15.

.....

Effesiaid 5:17.

.....

Galatiaid 5:22.23.

.....

**2 Corinthiaid 3:18.**

.....

**Cwestiynau**

A ydach chi'n gwneud ymdrech i ganiatáu i'r Ysbryd Glân eich arwain chi bob dydd?

Oes yna bechodau yn eich bywyd y mae'n rhaid cael eu gwared gyda help a grym yr Ysbryd?

Allwch chi weld ffrwyth yr Ysbryd Glân yn tyfu yn eich bywyd?

**Yr Ysbryd = Help i Weddio**

Mae'r pethau hynny y cawn ein hannog i weddio drostynt yn cynnwys:

**Mathew 6: 9,12,13.**

.....

**Effesiaid 3:19.**

.....

**Iago 5:14, Actau 4:30.**

.....

**Ioan 17:20,21.**

.....

**Philipiaid 1:9,10.**

.....

**Colosiaid 1:10,11,19.**

.....

**Mathew 7:11; Luc 11:13.**

.....

Mae gweddi yn newid pethau - pan ydym yn gweddio'n unol ag ewyllys Duw!  
Mae Duw yn caru rhoi rhoddion da i'w blant ac mae gweddi sy'n cael ei hateb  
yn un o'r rhoddion hynny.

**Rhufeiniaid 8:26, 27.**

.....

### **Cwestiynau**

A yw gweddi yn rhan hanfodol o'ch bywyd dyddiol?

.....

Oes pethau yn eich bywyd ar hyn o bryd sy'n rhwystro eich perthynas chi  
â Duw?

.....

A ydach chi wedi ystyried treulio amser yn gweddio gyda ffrind neu ddau  
yn gyson?

.....

## **2. Yr Eglwys**

**Effesiaid 4:11-12.**

Pa rolau a restrir fan hyn?

.....

Beth yw bwriad yr arweinwyr hyn?

.....



Beth yw canlyniad 'gweithredoedd o wasanaeth'?

.....

Dyma rai o'r cyfrifoldebau eraill sydd gan bob aelod o gorff Crist tuag at ei gilydd:

**Galatiaid 6:2.**

.....

**Effesiaid 6:18.**

.....

**1 Thesaloniaid 5:11.**

.....

### Cwestiynau

Disgrifir yr eglwys hefyd fel 'Priodferch Crist': Effesiaid 5:25-27; Datguddiad 19:7-9. Pa syniadau y mae hyn yn ei roi i ni ynghylch ein perthynas â Christ?

.....

Disgrifir yr Eglwys hefyd fel 'teml sanctaidd': Effesiaid 2:19-21. Pa fath o bobl a pha fath o Eglwys y mae Duw eisiau eu gweld?

.....

### I'w ystyried

Meddyliwch am eich rôl chi yn yr Eglwys. Sut ydach chi yn cyflawni eich rôl? Ydach chi angen yr aelodau i'ch helpu chi mewn ffyrdd penodol ar hyn o bryd?

### 3. Y Beibl – Gair Duw

**2 Timotheus 3:16.**

Ar gyfer beth y mae'r Efengyl yn ddefnyddiol?

.....

Beth yw canlyniadau rhoi'r Efengyl ar waith ym mywyd y credinwyr?

.....

**I'w Drafod**

Pa ddulliau gwahanol y mae pobl yn eu defnyddio ar gyfer astudio'r Beibl?

.....

Sut allwn ni oresgyn yr anhawster o neilltuo amser ar gyfer darllen ac astudio Gair Duw?

.....

**I'w ystyried wrth derfynu**

**Hebraid 10:24, 25.**

.....

**Mathew 18:20.**

.....

**I'w ystyried**

A ydym ni'n gwneud ymdrech i gyfarfod â Christnogion yn rheolaidd er mwyn annog eraill a chael ein hannog ganddyn nhw??

## 5. 'Gwneud daioni':

### Pa ganlyniadau allwn ni eu disgwyl?

Pwrpas yr astudiaeth: Yn yr astudiaeth hon rydym am ystyried beth a ddywed y Beibl ynghylch pwrpas ein gwaith da a beth fydd canlyniad bywyd o 'wneud daioni' ar gyfer yr eglwys, pobl y tu hwnt i gymdeithas yr eglwys, ni ein hunain, a Duw. Byddwn wedyn yn gorffen ein cyfres trwy ail-ystyried stori Dorcas a sut y gallwn gymhwyso'r gwersi sydd wedi'u dysgu yn ystod y gyfres hon ar gyfer ein bywydau ein hunain.

#### Beth nad yw gweithredoedd da!!

Beth mae'r adnodau hyn yn ei ddweud am ennill ffafr Duw?

Eseia 64:6.

.....

Rhufeiniaid 3:28.

.....

Ioan 5:24.

.....

Titus 3:5.

.....

#### Beth yw gweithredoedd da!!

Ein hymateb i gariad a thrugaredd Duw:  
Rhufeiniaid 12:1.

.....

Ewyllys Duw ar gyfer ei bobl:  
**Effesiaid 2:10; Titus 2:11-14; 3:1,8,14.**

.....

Gwaith Ysbryd Duw yn fewnol:  
**Colosiaid 1:10.**

.....

## **Pwrpas ein gweithredoedd da**

**1. Er lles yr Eglwys**

**Galatiaid 6:9,10.**

.....

### **Cwestiynau**

Meddylwch am 'deulu'r ffydd' yr ydych chi'n perthyn iddo.  
Sut ydych chi'n dangos consýrn am aelodau eraill y teulu?

.....

Oes yna rywbeth y dylech ei wneud i'r aelodau o gofio eich talentau  
a'ch doniau?

.....

Beth am 'deulu'r ffydd' yn fyd eang? Oes cyfleoedd i ofalu am y teulu  
mwy eang?

.....

**2. Er lles 'y byd'**

**Mathew 4:4 ac Ioan 6: 35, 40.**

Pa anghenion a ddisgrifir yn yr adnodau hyn?

.....

## I'w Drafod

Sut all ein gweithredoedd da ddatgelu Duw i bobl eraill?

### 3. Er mwyn fy sancteiddio i

**2 Corinthiaid 3:18 a Rhufeiniaid 8:29.**

Pa newidiadau sy'n digwydd ym mywydau pobl Dduw?

.....

**1 Pedr 2:20 a 1 Pedr 3:13,14.**

Beth y mae Pedr yn rhybuddio ei ddarllenwyr y dylent ei ddisgwyl?

.....

### 4. Er gogoniant i Dduw

Beth wnaiff y 'paganiaid' wedi gweld eich gweithredoedd da?

**1 Pedr 2:12.**

.....

Beth, yn ôl Iesu, wnaiff pobl wedi gweld ein 'goleuni'?

**Mathew 5:16.**

.....

Beth allwn ni ei wneud i ogoneddu Duw?

**1 Corinthiaid 10:31.**

.....

### I'w Drafod:

Mae llawer o bobl yn dweud bod gormod o ragfarn yn perthyn i'r capel, a dyna pam nad ydyn nhw yn tywyllu'r lle!

Pam mae pobl yn dweud hyn?

.....

Sut allwn ni sicrhau mai Duw sy'n cael y clod o'n gweithredoedd da?

.....

Pa agweddau y mae'n rhaid inni eu harddangos fel Cristnogion er mwyn atal eraill rhag ein gweld fel rhagrithwyr?

.....

**Beth mae stori Dorcas yn ei ddweud wrthym am wneud daioni?**

1. I Deulu'r ffydd. Actau 9:38

.....

2. I'n cymuned. Actau 9:39

.....

3. I'n cymeriad ni ein hunain. Actau 9:36; Marc 10:45

.....

4. A'r canlyniadau. Actau 9:42

.....

**Cwestiynau**

1. Pa fath o berthynas sydd gen i gyda fy mrodyr a chwiorydd yng Nghrist? Oes angen imi ymdrechu i "wneud daioni" iddynt? Beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol?
2. Sut allaf i "wneud daioni" yn fy nghymuned?
3. Ydw i'n cael fy nhrawsnewid i fod yn fwy fel Iesu trwy waith yr Ysbryd Glân yn fy mywyd - diosg pechod a gweld ei ffrwyth yn tyfu? Oes rhywbeth penodol yn fy mywyd sydd angen sylw?
4. A yw fy mywyd yn gogoneddu Duw? Pwy yw'r bobl sydd angen imi weddio y deuant hwy i gredu yn Iesu? Sut allaf i gyflwyno Iesu iddynt?



